Crynodeb o waith Cyngor Ysgolion Sul am 2019

Pleser yw cael crynhoi prif weithgaredd Cyngor Ysgolion Sul a Cyhoeddiadau'r Gair am y flwyddyn, gan ddiolch eto am bob anogaeth a chefnogaeth i'n gwaith gan bartneriaid ac enwadau yng Nghymru. Erbyn hyn rydym wedi cychwyn gweithredu ar ein cynllun gwaith newydd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, ac wrthi yn gosod strwythur digidol newydd mewn lle. Mae hyn yn cynnwys datblygu ein 5 gwefan a chynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, creu adnoddau ffilm a digidol newydd, a hefyd datblygu yr adnoddau print i fod ar gael fel e-lyfrau. Mae'r gwaith bellach yn cael ei gyfeirio gan dri panel o gynrychiolwyr enwadol, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, i fwydo syniadau a chyfeiriad y gwaith. Isod ceir crynodeb o'r prif weithgarwch:

Gwefannau

Bellach mae gan y Cyngor 5 gwefan y mae'n gyfrifol am eu gweinyddu.

Mae cryn waith wedi cael ei wneud i i drosglwyddo **2 wefan beibl.net** a **gobaith.cymru** drosodd i'n gofal, gan wneud newidiadau brandio cyn i Gobaith i Gymru ddirwyn ei waith i ben ddiwedd Hydref. Cafwyd cyfarfodydd adeiladol gyda Arfon Jones a Gwenda Jenkins i hwyluso'r broses drosglwyddo. Mae deunydd hysbysebu a marchnata hefyd wedi cael eu paratoi i hysbysebu hyn.

Rydym yn parhau i ddatblygu y ddwy wefan arall hefyd, sef **gair.cymru** (deunyddiau i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim yn cael ei lwytho yn raddol) **a cristnogaeth.cymru** (gwybodaeth yn cael ei ddiweddaru wrth i ni dderbyn gwybodaeth gan fudiadau), gan ddiweddaru ein prif wefan **ysgolsul.com** (ein siop ddigidol yn gyflawn erbyn hyn) hefyd. Gweler isod grynodeb o bwrpas pob un o'r gwefannau.

www.ysgolsul.com

Gwefan swyddogol y Cyngor, sy'n cynnwys gwybodaeth a newyddion am ein gwaith yn ogystal â siop ar lein a siop ddigidol i brynu llyfrau ac adnoddau digidol i'w lawr lwytho.

www.cristnogaeth.cymru

Gwefan gyffredinol sy'n ffynhonnell gwybodaeth am bopeth ac unrhyw beth yn ymwneud â Christnogaeth yng Nghymru. Ceir adran hanes Cristnogaeth ynghyd â rhestr faith o gysylltiadau Cristnogol Cymreig.

www.gair.cymru

Gwefan sy'n cynnwys deunydd Cristnogol Cymraeg i'w lawr lwytho yn rhad ac am ddim, gan gynnwys gwersi ysgol Sul ar gyfer pob oed, gwasanaethau cyflawn ar gyfer cynnal oedfaon ar y Sul, gweddïau a myfyrdodau, ffilmiau ar gyfer plant ac oedolion, cyflwyniadau PowerPoint i'w defnyddio mewn gwersi ac oedfaon, deunydd defosiwn dyddiol ar gyfer bob dydd o'r flwyddyn, gwasanaethau ar gyfer ysgolion a sgyrsiau plant ar gyfer oedfa neu wasanaeth Ysgol Sul.

www.beibl.net

Gwefan sy'n cynnwys testun y Beibl cyfoes beibl.net ynghyd â llawer o adnoddau cysylltiol eraill.

www.gobaith.cymru

Gwefan sy'n cynnwys dros fil o emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes ar ffurf geiriau yn unig ac fel ffeiliau Powerpoint y mae modd eu lawr lwytho yn rhad ac am ddim.

Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gan Cyngor Ysgolion Sul dudalen Facebook a chyfrif Twitter. Yn ogystal mae gennym dudalen FB ar gyfer beibl.net ac ar gyfer Beibl Byw / Cristnogaeth Cymru. Gwneir postiadau yn wythnosol ar y tudalennau hyn.

Digwyddiadau a chyfarfodydd

Erbyn hyn mae ein **3 Panel newydd** wedi cyfarfod, sef **Panel Datblygu Adnoddau Cenhadaeth, Panel Datblygu Adnoddau Gweinidogaeth a Panel Hybu, hyrwyddo a hyfforddiant.** Mae'r 2 panel wedi cyfarfod eleni ac wedi cychwyn datblygu rhaglen waith am y blynyddoedd nesaf. Diolch am gefnogaeth yr enwadau i hyn. Mae gan bob enwad 3 aelod ar y paneli hyn.

Yn ogystal bu i ni gynnal ein **cyfarfod blynyddol** fel CYS ym mis Mehefin, a'r ddau **bwyllgor gwaith** yn y gwanwyn a'r hydref,

Roeddem yn ôl yng Nghaerdydd eleni ar gyfer **Eisteddfod yr Urdd**, a braf eleni eto oedd rhannu gofod gyda Cytun a Chymorth Cristnogol.

Llwyddwyd i gyrraedd y **3 gynhadledd enwadol**, sef Undeb y Bedyddwyr yn Aberteifi, Undeb yr Annibynwyr yn Rhydymain a'r Gymanfa Gyffredinol yn Wrecsam. Cafwyd cyfle i gynnal stondin adnoddau yn y 3 digwyddiad.

Cafwyd cyfle i arddangos yng Nghynhadledd flynyddol **Esgobaeth Bangor** eleni hefyd am y tro cyntaf.

Cafwyd digwyddiadau llwyddiannus yn y **Sioe Fawr yn Llanelwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst** - er y tywydd heriol yno. Cynhaliwyd stondin yn y ddau ddigwyddiad yn ôl yr arfer, ynghyd â nifer o lansiadau a seminarau.

Cynhaliwyd **2 gyfarfod cyflwyno Medalau Gee**, gan gyflwyno 39 medal eleni - 31 ym Mangor a 7 yng Nghaerfyrddin, ac 1 yn Llundain. Diolch am groeso gweinidog a swyddogion Berea Newydd, Bangor a Capel y Priordy, Caerfyrddin. Diolch i Dorothy Gee Williams o Ganada a Isoline Grenaulgh o Ddyffryn Conwy (dau aelod o'r teulu Gee) am eu cefnogaeth a'u presenoldeb yn y ddau gyfarfod.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda HopeTogether i hybu cwrs **Sôn am Iesu** - mae'n dda bod yr adnodd hwn bellach ar gael yn Gymraeg.

Cafwyd gwahoddiad i ymuno gyda chriw **Advance 2020** i drafod cenhadaeth yng Nghymru - lle mae nifer o fudiadau Cristnogol yn cydweithio i weddïo yn 2020.

Yn dilyn cyfarfod i drafod **marchnata Roots yng Nghymru** cynhyrchwyd llyfryn lliwgar 16 tudalen i'w ddosbarthu gan yr enwdau i'r eglwysi. Yn ogystal mynychwyd 4 cyfarfod o'r bwrdd cyfarwyddwyr yn Llundain yn ystod y flwyddyn. Mae'r adnoddau wythnosol yn parhau i gael eu paratoi yn Gymraeg.

Cafwyd cyfarfod gyda phapur Cristnogol Saesneg **Good News** gyda golwg ar baratoi ambell rifyn yn Gymraeg, fel adnodd cenhadol i'w ddosbarthu mewn digwyddiadau.

Cafwyd cyfarfod gyda John Stockley o **Christian Vision for Men**, gan gytuno bwrw ymlaen i addasu un o'i hadnoddau, sef Y Ffordd Gwallgof.

Cafwyd cyfarfod gyda Cass Meurig o **Godly Play** i drafod paratoi fersiwn Cymraeg o'r adnodd hwn. Rydym yn gobeithio paratoi 4 cyfrol yn y Gymraeg. Cafwyd nawdd gan Esgobaeth Bangor at y gwaith.

Bu i mi fynychu cynhadledd **European Conference on Christian Education** ym Merlin, a dau gyfarfod o'r **Children's Ministry Network** yn Birmingham.

Cafwyd cyfle i drafod adnoddau Eglwysig gyda Mark Griffiths a Manon Ceridwen yng nghanolfan **Padarn Sant**, Caerdydd.

Cafwyd cyfle i gyfarfod gyda Cynan Llwyd a Dyfed Roberts o **Gymorth Cristnogol** i drafod cyhoeddi adnodd i Ysgolion Sul ar gyfiawnder. Mae gwaith ar y gweill i gyhoeddi gwerslyfr gyda 15 o storïau yn ymwneud â chyfiawnder.

Yn ôl yr arfer mynychwyd **Ffair Lyfrau Lundain** a'r **Christian Resouirces Exhibition** yn Llundain.

Mynychwyd ymgynghoriad wedi ei drefnu gan **Cymdeithas y Beibl** i drafod gwaith y gymdeithas yng Nghymru, ac i drafod cydweithio rhwng mudiadau ac enwadau.

Cafwyd cyfarfod gyda John a Rachel o **Scripture Union** i drafod blaenoriaethu eu hadnoddau Cymraeg am y blynyddoedd nesaf.

Mynychwyd dau gyfarfod o **Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru** a chyfarfod blynyddol **Cytun**.

Cafwyd cyfarfod gyda **Plant Dewi** i drafod cydweithio, a datblygwyd pecyn Cristingl gennym.

Daeth cais gan y Cyngor Llyfrau i fynychu **seminar hyfforddiant ar gyhoeddi** yng Nghymru - gan drafod diogelwch ffeiliau a gwefanau ar y we, cyhoeddi digidol, partneriaethau gyda chyhoeddwyr yn Ewrop, ac oblygiadau argraffu a dosbarthu yn wyneb Brexit (rydym yn argraffu llawer yn Ewrop ein hunain!).

Rhoed trefniant mewn lle i gynnal digwyddiad cenedlaethol yng Nghapel Penuel, Caerfyrddin ar gyfer dydd Sadwrn Chwefror 29ain 2020 am 2.00, i **ddiolch am waith GiG dros 20 mlynedd**, ac hefyd i ail lansio strategaeth newydd CYS. Bydd Geraint Tudur yn pregethu.

Cafwyd cyfle i fynychu dathliad **Agor y Llyfr yn 20 oed**. Roedd yn 10 mlynedd ers i ni gyhoeddi'r adnodd yn Gymraeg cyn i Gymdeithas y Beibl fynd yn gyfrifol am y cynllun.

Mynychwyd cyfarfod o **Gwlwm Cyhoeddwyr Cymru,** ac yn dilyn diflaniad 2 wasg (Gomer a CAA Aberystwyth), bu'n rhaid ail ddewis swyddogion, ac fe gytunais i weithredu fel trysorydd.

Cyhoeddi

By 2019 yn flwyddyn brysur i'r wasg gan gyhoeddi nifer o lyfrau newydd yn ystod y flwyddyn.

Cyfrol y bu cryn gyffro o'i chwmpas oedd **Yr Alwad** gan Beti Wyn James a minnau. Trefnwyd 3 cyfarfod lansio, yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Chaernarfon. Gwnaed rhaglen arbennig gan Dechrau Canu hefyd yn tynnu sylw at y gyfrol ac yn cyfweld cyfranwyr i'r gyfrol. Caed sylw radio a theledu i'r gyfrol hefyd.

Cyhoeddwyd **Sut mae Bod yn Weinidog Eglwys** gan Olaf Davies, a lansiwyd mewn cyfarfod hyfforddi yn Nhrefecca yng nghwmni Nigel Wright, yr awdur gwreiddiol.

Cyhoeddwyd **Tynged Cenedl** gan Rhys Llwyd a lansiwyd yn Undeb yr Annibynwyr yn Rhydymain. Cynhaliwyd digwyddiad i'w hybu ym Mhenygroes hefyd gyda Angharad Tomos yn siarad.

Cyhoeddwyd **Y Tir Ysgythrog** gan Desmond Davies a lansiwyd mewn oedfa gymun lle roedd yr awdur yn pregethu fel rhan o gynhadledd Undeb y Bedyddwyr yn Aberteifi.

Cyhoeddwyd a lansiwyd **Geiriau Ffydd 3** gan John Treharne a bu cyfle i gyflwyno copi i'r awdur yng Nghymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ym Mhenbre, ac hefyd yn yr Undeb. Hwn yw maes llafur yr oedolion am eleni a bu trafod gyda Hywel Edwards am y wers Ysgol Sul wythnosol yn y 4 Tudalen.

Cyhoeddwyd a lansiwyd **O Eden i Baradwys** gan Hugh Matthews, a cyflwynwyd copi i'w weinidog, Y Parch Denzil John, yn Undeb y Bedyddwyr.

Cyhoeddwyd **Pererin Wyf** gan Huw John Hughes a lansiwyd yn yr Eisteddfod yn Llanrwst.

Cyhoeddwyd **Camau Cyntaf trwy brofedigaeth** gan Gwilym Roberts a lansiwyd yn yr Eisteddfod.

Cyhoeddwyd **Y Beibl ar roi a chyfrannu** gan Arwel Ellis Jones a lansiwyd yn yr Eisteddfod.

Lansiwyd 3 gyfrol hefyd ddiwedd y flwyddyn yn barod at y farchnad Nadolig, sef:

Cracyr Dolig sef cyfrol o arferion a draddodiadau Nadoligaidd gan Huw John Hughes.

Gair Duw ar Waith, sef myfyrdodau ar roi ein ffydd ar waith gan Denzil John.

Gwerthfawr Drysor gan E Wyn James, sef casgliad o garolau nadolig mewn cyfrol hardd.

Mae **Dehongli Bywyd a Gwaith Abraham** gan Gareth Lloyd Jones hefyd yn barod i'w argraffu, gyda'r bwriad o gyhoeddi yn Ionawr.

Bu i ni hefyd gydweithio gyda Arfon Jones a Gwyn Rhydderch i baratoi cyfres o **ffilmiau Nadolig** ar gyfer eleni, gan ddefnyddio ein gwaith celf o ddeunydd cylchgrawn Nadolig a baratowyd gennym. Bu ffilmio cyfres o ffilmiau Nadolig ar gyfer 2020 yn ystod Rhagfyr hefyd gyda Martyn Geraint, gan fanteisio ar dirwedd a golygfeydd Nadoligaidd.

Gweinyddol / Marchnata / Hyrwyddo

Cynhyrchwyd ein **bwletin blynyddol Cysylltiad** a gafodd ei ddosbarthu i eglwysi Cymru drwy'r enwadau. Gwnaed camau hefyd i gael ein newyddion allan trwy strwythurau yr Eglwys yng Nghymru.

Paratowyd **24 erthygl ar gyfer y Pedair Tudalen** yn ystod y flwyddyn, ynghyd â 5 sgwrs radio.

Gwnaed postiad blynyddol i rannu ein catalog adnoddau newydd.

Gyrrwyd 8 postiad electronig allan ar ein bas-data Mailchimp i gefnogwyr ein gwaith.

Wrth grynhoi'r gweithgarwch, rhaid hefyd ddiolch am holl gefnogaeth aelodau'r Cyngor a'r paneli, ac i Rhys Llwyd sy'n gweithio gyda ni ar ddydd Mercher yn cysodi a dylunio, i Mair Jones Parry a John Pritchard sy'n gofalu am y gwaith golygyddol, ac i Delyth Wyn Davies sy'n rheoli gwaith gwefan Gobaith/deunydd mawl ac adnoddau Roots yn Gymraeg.

Diolch hefyd am gadeiryddiaeth ffyddlon a doeth Dyfrig Lloyd dros y dair blynedd olaf, a dymunwn yr un fendith eto ar waith Jennie Hurd wrth iddi hi gychwyn ar y gwaith. Rhaid talu gair o ddiolch hefyd i'n swyddog ariannol a'n trysorydd, sef Rheinallt Thomas ac Idris Hughes am yr holl waith maent yn ei gyflawni ar ein rhan.

Aled Davies, Cyfarwyddwr/Director, Cyngor Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair